# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi:Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4705A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 18

Atodiad 2 – ffi archwilio 21

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal â hynny, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth y pandemig COVID-19. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru yn y ffordd orau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailgydiwyd yn rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle roedd yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig ei fyrhau bythefnos o'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn parhau i fod yn gyson â'r heriau ar ôl y pandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'u cynhelir yn unol â safonau archwilio INTOSAI.[1]

[1] Mae INTOSAI (Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n mynd rhagddo o hyd, neu sydd heb ei gyflawni eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi i dalu am gostau ymgymryd â fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Gwnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Mawrth 2025. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddiad ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio'r cyfrifon

12 Rhoddais farn wir a theg ddiamod ar gyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

13 Rhoddais farn ar reoleidd-dra amodol ar gyfer 2023-24 gan fod y Bwrdd Iechyd:

- heb adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y tair blynedd 2021-22 i 2023-24, gan fethu ei ddyletswydd ariannol gyntaf;
- wedi ysgwyddo gwariant afreolaidd ar gyfer taliadau a wnaed i aelod gweithrediaeth interim o'r Bwrdd.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y cymwysterau rheoleidd-dra a nodir uchod, ac na chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i baratoi cynllun integredig tair blynedd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

15 Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid rhanbarthol yn deall ac yn dangos ymrwymiad i wella llif cleifion allan o'r ysbyty. Fodd bynnag, mae nifer y cleifion sy'n ddigon iach yn feddygol sy'n llenwi gwelyau ysbyty yn parhau i

fod yn uchel iawn. Rhaid i bartneriaid rhanbarthol barhau i weithio'n unigol ac ar y cyd i osod a gweithredu canllawiau clir, i liniaru'r heriau a achosir gan lai o gapasiti a mwy o gymhlethdod gofal, a sicrhau bod effaith gweithgareddau'n cael ei monitro, ei herio a'i chynyddu i'r eithaf yn barhaus.

- ychydig o gynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Er bod cyflwyno Rhyddhau i Adfer ac Asesu wedi gwella dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio i ryddhau cleifion, mae heriau o hyd o ran hyfforddiant, cydymffurfio â chanllawiau, ymgorffori mentrau ac adrodd ar berfformiad cynllunio rhyddhau ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgorau.
- er bod y Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei darged arbedion a bron wedi cyrraedd ei darged diffyg rheoli ar gyfer 2023-24, mae ei hanes o gyflawni arbedion cylchol wedi bod yn amrywiol. O ystyried sefyllfa ariannol heriol bresennol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu'r gwaith o gyflwyno a sefydlu ei drefniadau arbed costau newydd ar draws y sefydliad ar fyrder.
- ers asesiad strwythuredig y llynedd a'n gwaith dilynol ar effeithiolrwydd y bwrdd, bu datblygiadau cadarnhaol yn rhai o drefniadau llywodraethu corfforaethol allweddol y Bwrdd Iechyd a chynnydd o ran recriwtio i rai uwch rolau sy'n hanfodol i fusnes. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd yn enwedig o ran sefydlu Tîm Gweithredol sefydlog, cydlynol sy'n perfformio'n dda, datblygu strategaeth hirdymor a Chynllun Gwasanaethau Clinigol ategol, a sicrhau bod strwythur sefydliadol a model gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben.

16 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Atodiad 1

## Archwilio'r cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24, a nodir y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4, Atodiad 3**.

19 Mae fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn cael eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

20 Rhoddais farn wir a theg ddiamod ar gyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

21 Nodwyd gennym yn y flwyddyn flaenorol na chafodd datganiadau ariannol 2022-23 eu cyflwyno i'w harchwilio i'r safon ddisgwyliedig. Ar gyfer 2023-24, bu gwelliant sylweddol yn ansawdd y datganiad ariannol drafft a gyflwynwyd i'w archwilio. Dangosir hyn gan y nifer cymharol fach o gamddatganiadau a nodwyd ac a ddiwygiwyd a'r ffaith nad oes unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd yn deillio o'r archwiliad.

22 Ategwyd y datganiadau ariannol drafft hefyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr ac amserol. Roedd y tîm cyllid hefyd yn gallu darparu'r mapiau llawn a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol o'r cyfriflyfr cyffredinol i ni. Galluogodd hyn y tîm archwilio i ddefnyddio meddalwedd ac offer Archwilio â Chymorth Dadansoddeg wrth gynnal yr archwiliad, gan wella tryloywder cynnwys datganiadau ariannol ar gyfer y tîm cyllid ac archwilio.

23 Er i mi nodi gwelliant o ran ansawdd datganiadau ariannol drafft 2023-24, roedd angen diwygio'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol drafft yn sylweddol i sicrhau bod y wybodaeth a adroddwyd yn ffeithiol gywir a'i bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llawlyfr Cyfrifon y GIG a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

24 Nododd adolygiad fy nhîm o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sawl maes lle mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau ar gyfer penodi swyddogion ar lefel uwch a dogfennaeth well o benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

25 Nodais fod swyddog-aelod o'r Bwrdd yn cael ei dalu ar bwynt cyflog a oedd yn sylweddol uwch na'r pwynt cyflog uchaf ar gyfer y rôl fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd fy nhîm na ddilynwyd gofynion y Cyfarwyddyd Ariannol Sefydlog (SFI), gan na chafwyd cymeradwyaeth y Bwrdd na Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen.

26 Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio), i'w hystyried cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nododd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer Archwilio Ariannol y materion hyn ar 10 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion yr adroddwyd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nad oeddent yn fân gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed nifer fach o ddiwygiadau i'r Datganiadau Ariannol.<br>Nid oedd y diwygiadau'n effeithio ar y prif ddatganiadau yn y datganiadau ariannol, dim ond ar y datgeliadau o fewn nifer fach o nodiadau i'r cyfrifon, yn arbennig y datgeliad o'r 'Datgeliadau Cyflog Teg' a'r 'Berthynas Cydnabyddiaeth Ariannol' yn nodyn 9.6.<br>Roedd angen diwygiadau sylweddol i'r Adroddiad cydnabyddiaeth Ariannol i sicrhau bod y wybodaeth yn ffeithiol gywir ac yn unol â Llawlyfr Cyfrifon y GIG.<br>Roedd angen nifer o ddiwygiadau i'r tablau 'Cydnabyddiaeth Ariannol fel Ffigur Unigol' a 'Buddiannau Pensiwn' gan gynnwys:<br>• cywiro ffigurau cydnabyddiaeth ariannol tri swyddog gweithredol ac un aelod annibynnol;<br>• cywiro rolau datgeledig aelod annibynnol;<br>• cynnwys dau swyddog gweithredol ar secondiad mewnol a gafodd eu hepgor;<br>• y cywiriad i ffigurau buddion pensiwn ar gyfer pedwar swyddog gweithredol;<br>• cynnwys symiau buddiant trethadwy ar gyfer saith aelod annibynnol a hepgorwyd;<br>• cynnwys datgeliadau cymharol ar gyfer gweithrediaeth a hepgorwyd yn flaenorol;<br>• y cywiriad i ffigurau Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig a Chyfandaliad ar gyfer un weithrediaeth; a |

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| | • y cywiriad i ffigurau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar gyfer pum swyddog gweithredol.<br>Gwnaed nifer o fân newidiadau hefyd drwy gydol yr adroddiad |
| Materion pwysig eraill | Gwnaeth y Bwrdd Iechyd wella ansawdd y datganiadau ariannol drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn sylweddol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwelliant sylweddol i ansawdd yr Adroddiad Cymeradwyaeth Ariannol a gyflwynwyd i Archwilio Cymru.<br>Am yr ail flwyddyn yn olynol, codais bryderon ynghylch trefniadau llywodraethu a gyfrannodd at daliadau afreolaidd gan y Bwrdd Iechyd. |

27 Cynhaliais hefyd adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth am atgyfnerthu cyfatebol yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2024 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

28 Mae fy archwiliad ar wahân o'r cyfrifon cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau, gyda barn archwilio ddiamod wedi'i rhoi. Nododd fy nhîm faterion yn ymwneud â chamddosbarthu rhoddion. Roedd hyn yn ymwneud â chyfrif anghywir am gyfran sylweddol o roddion, a arweiniodd at newidiadau sylweddol yr oedd eu hangen i sicrhau dosbarthiad cywir. Cafodd y cyfrifon cronfeydd elusennol eu diwygio wedyn ac, o ganlyniad, nid yw hyn wedi effeithio ar ein barn archwilio. Argymhellais yr adroddiadau Elusennau yn fwy eglur i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol pan fo cyllid ar gyfer prosiectau yn disgyn yn is na'r hyn a gymeradwywyd ac a gydnabuwyd yn flaenorol. Nodwyd gennym hefyd fod y papurau gwaith a ddarparwyd i'w harchwilio o ansawdd gwell o'r flwyddyn flaenorol, ond bod angen parhau i'w datblygu er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses archwilio ymhellach.

## Rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol

29 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol ag awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau a'r profion hyn nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

30 Os nad yw Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn rheoleidd-dra.

31 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 yr wyf yn barnu ei fod y tu allan i'w bwerau i wario, felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

32 Torrodd y Bwrdd Iechyd ei derfyn adnoddau hefyd, drwy wario £23.669 miliwn dros y swm yr awdurdodwyd iddo ei wario yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24.

33 Gwnaeth y Bwrdd Iechyd daliadau i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro, a benodwyd ym mis Ionawr 2023, ar gyfradd a oedd yn fwy na'r band cyflog a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae paragraff 14.1.2 SFIs y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodi swyddogion sy'n aelodau o'r Bwrdd gael ei gadw i'w gymeradwyo gan y Bwrdd llawn. Mae SFI 14.1.4 hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru os yw aelod sy'n swyddog o'r Bwrdd yn cael mwy o dâl na band cyflog cymeradwy Llywodraeth Cymru. Gwnaethom gadarnhau na ddilynwyd gofynion yr SFI, gan na chafwyd cymeradwyaeth y Bwrdd na Gweinidogion Cymru. Rwy'n ystyried bod y gwariant hwn y tu allan i'w bwerau i wario, felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiad hwn a gydnabyddir yng nghyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

34 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'm barn, lle rwyf am dynnu sylw at faterion. Oherwydd y materion a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi manylion ffeithiol fy amodi fy marn ar reoleidd-dra.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

35 Mae gennyf ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol, i gefnogi llif cleifion amserol allan o'r ysbyty ar draws rhanbarth Gogledd Cymru;
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion ar gyfer 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Bwrdd Iechyd; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

36 Nodir fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn ar y tudalennau canlynol.

## Gofal brys ac mewn argyfwng

37 Roedd fy ngwaith yn archwilio gwahanol agweddau ar y system gofal brys a gofal mewn argyfwng a oedd yn canolbwyntio ar lif cleifion allan o’r ysbyty, a chynnydd yn erbyn fy argymhellion cynllunio rhyddhau blaenorol. Adroddwyd ar fy ngwaith ym mis Medi 2024.

### Llif cleifion allan o’r ysbyty

38 Archwiliodd fy adolygiad rhanbarthol a oes gan y Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid gwasanaethau cymdeithasol drefniadau effeithiol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n brydlon o’r ysbyty. Roedd yn canolbwyntio ar faint yr her, a'r ffactorau sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty. Roedd fy ngwaith hefyd yn ystyried y camau sy’n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid statudol, gan gynnwys drwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a beth arall y gellir ei wneud i leihau rhai o’r heriau y mae’r system iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

39 Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid rhanbarthol yn deall ac yn dangos ymrwymiad i wella llif cleifion allan o’r ysbyty. Fodd bynnag, mae nifer y cleifion sy'n ddigon iach yn feddygol sy'n llenwi gwelyau ysbyty yn parhau i fod yn uchel iawn. Rhaid i bartneriaid rhanbarthol barhau i weithio'n unigol ac ar y cyd i osod a gweithredu canllawiau clir, i liniaru'r heriau a achosir gan lai o gapasiti a mwy o gymhlethdod gofal, a sicrhau bod effaith gweithgareddau'n cael ei monitro, ei herio a'i chynyddu i'r eithaf yn barhaus.**

40 Mae maint yr oedi cyn rhyddhau cleifion yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, bob mis ar gyfartaledd roedd 334 o gleifion digon iach yn feddygol lle roedd oedi cyn eu rhyddhau, a chwblhau asesiadau oedd y prif reswm dros yr oedi. Ar gyfer y flwyddyn hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror 2024, cyfanswm nifer y diwrnodau gwely a gollwyd oherwydd oedi cyn rhyddhau oedd 71,871 gyda chost blwyddyn lawn yn cyfateb i £39.202 miliwn. Mae’r effaith ddilynol ar lif cleifion o fewn ysbytai a’r system gofal brys a gofal brys yn sylweddol, gydag amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a throsglwyddiadau ambiwlans ymhell islaw’r targedau cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2024 yn unig, collwyd dros 8,000 o oriau ambiwlans oherwydd oedi wrth drosglwyddo, a’r amser aros cyfartalog yn adrannau brys y Bwrdd Iechyd oedd tua 8.5 awr.

41 Mae sawl ffactor yn cyfrannu at oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae gan lawer o gleifion anghenion cymhleth nad ydynt yn cael eu diwallu’n hawdd gan y gwasanaethau sydd ar gael. Mae heriau gweithlu hefyd yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ardaloedd Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Nododd ein gwaith nifer o wendidau yn yr ymarfer a dogfennaeth cynllunio rhyddhau ac angen i weithredu’r model Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) fel y bwriadwyd.

42 Mae partneriaid yn cydweithio, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion. Fodd bynnag, mae pwysau ar y system yn creu diwylliant beio di-fudd. Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio i wella cynllunio rhyddhau, er bod cyfyngiadau ariannol mewn cyrff partner yn arwain at gyflwyno cynlluniau yn barhaus ac yn y pen draw ychydig iawn o le sydd ar gael ar gyfer syniadau newydd. Er bod y sefyllfa yn cael ei monitro'n rheolaidd o fewn sefydliadau unigol, nid oes gan bartneriaid drefniadau i oruchwylio llif cleifion ar draws y system iechyd a gofal i gyd.

43 Mae angen i bartneriaid hefyd wneud y defnydd gorau o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF), gwella goruchwyliaeth ac effaith y mentrau sy'n cael eu cynnal i gefnogi rhyddhau amserol ac effeithiol, a sicrhau bod dysgu o ddigwyddiadau'n cael ei ymgorffori mewn arferion arferol.

## Cynllunio ar gyfer rhyddhau: diweddariad ar gynnydd

44 Wrth gynnal fy adolygiad rhanbarthol o drefniadau i gefnogi llif cleifion, rwyf hefyd wedi achub ar y cyfle i ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol yn 2017 yn ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion.

45 Canfu fy ngwaith mai **ychydig o gynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Er bod cyflwyno Rhyddhau i Adfer ac Asesu wedi newid dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio i ryddhau cleifion, mae heriau o hyd o ran hyfforddiant, cydymffurfio â chanllawiau, ymgorffori mentrau ac adrodd ar berfformiad cynllunio rhyddhau ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgorau.**

46 Canfu fy ngwaith dilynol nad aethpwyd i'r afael yn llawn ag unrhyw un o argymhellion 2017. Yn benodol, gwelais y canlynol:

- dim tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion neu lwybrau i staff perthnasol newydd neu bresennol ar adeg y gwaith maes, er bod rhywfaint o weithgarwch hyfforddi wedi dechrau ers hynny;
- tystiolaeth gyfyngedig fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cylch archwilio arferol i bennu i ba raddau y cydymffurfir â'i ddull rhyddhau;
- bod y Bwrdd Iechyd bellach yn mabwysiadu'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu ac Adennill sydd wedi'u mandadu'n genedlaethol, er bod anawsterau o hyd o ran eu cymhwyso'n gyson oherwydd problemau capasiti;
- nad yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r 'rhaglen awr aur' erbyn hyn i annog rhyddhau cleifion cyn 11am, ac nid yw ychwaith yn adrodd ar yr amser rhyddhau er ei fod yn nodi ei fod yn gweithio i annog rhyddhau yn y bore;
- bod diffyg dealltwriaeth o hyd o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, sydd eu hangen er mwyn helpu i gefnogi cynllunio rhyddhau effeithiol ac amserol; a

- er bod gwasanaethau'n cael eu monitro ar lefel weithredol, nid oedd adroddiadau perfformiad i'r bwrdd a'i bwyllgorau ar gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion o'r ysbyty wedi'u hatgyfnerthu, er gwaethaf y pwysau sylweddol a pharhaus ar y Bwrdd Iechyd a achosir gan lif cleifion gwael.

## Adolygu trefniadau arbed costau

47 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, darparu a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn 2023-24 y Bwrdd Iechyd ac amlygodd lle y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

48 Canfu fy ngwaith, **er bod y Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei darged arbedion a bron wedi cyrraedd ei darged diffyg rheoli ar gyfer 2023-24, mae ganddo hanes amrywiol o gyflawni arbedion cylchol. O ystyried sefyllfa ariannol heriol bresennol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu'r gwaith o gyflwyno a sefydlu ei drefniadau arbed costau newydd ar draws y sefydliad ar fyrder.**

49 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i ysgogwyr costau. Mae adroddiadau'n tynnu sylw at feysydd cost uchel megis costau cyflogau a chostau nad ydynt yn gyflogau (gan gynnwys costau asiantaethau nyrsio a meddygol), gofal iechyd parhaus, a rheoli meddyginiaethau Mae'r meysydd cost uchel hyn yn parhau i gyfrannu'n allweddol at y sefyllfa ariannol heriol a'r diffyg sylfaenol sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r ymagwedd hon i ymdopi â'i heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod wrthi'n datblygu Cynllun Strategol tymor hwy cliriach a Strategaeth Gwasanaethau Clinigol. Mae'r rhain yn hanfodol bwysig i ysgogi'r trawsnewid gwasanaeth sydd ei angen i sefydlu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn glinigol ac yn ariannol.

50 Er bod cyflawniad arbedion cylchol y Bwrdd Iechyd wedi gwella yn 2023-24, roedd perfformiad arbedion yn amrywio ar draws ei Gymunedau a Chyfarwyddiaethau Iechyd Integredig. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd hanes amrywiol o gyflawni arbedion rheolaidd. Roedd ffrydiau gwaith newydd Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd 2024-25 y Bwrdd Iechyd yn cael eu cwblhau ar adeg ein hadolygiad. Dylai'r strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer y ffrydiau gwaith unigol arwain at ymgysylltu gwell ar draws y Bwrdd Iechyd a chynyddu llwyddiant cyflawni buddion cynlluniau arbed. Fodd bynnag, bydd angen iddo barhau i gryfhau cymwyseddau ariannol ar draws y sefydliad os yw am gyflawni ei darged arbedion heriol ar gyfer 2024-25.

51 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer craffu, monitro, olrhain ac adrodd ar arbedion cost yn gwella. Mae gan y Bwrdd ddealltwriaeth glir o heriau ariannol y Bwrdd Iechyd drwy ei adroddiadau cyllid ac arbedion rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt wedi arwain at berfformiad ariannol gwell ar draws y sefydliad. Mae angen iddo gryfhau'r modd y mae'n dwyn Cymunedau Iechyd Integredig a Chyfarwyddiaethau i gyfrif am dangyflawni arbedion a rhannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau arbed aneffeithiol.

## Asesiad strwythuredig

52 Cynhaliwyd fy ngwaith archwilio strwythuredig ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal â hynny, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth y pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

53 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gyda ffocws penodol ar y canlynol: Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol o gynllunio; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Talodd yr archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

54 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun proses uwchgyfeirio Lefel 5 o dan Drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

55 Ystyriodd fy ngwaith a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r canlynol:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur y Bwrdd a phwyllgorau, busnes, cyfarfodydd, a llifau sicrwydd
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau, profiad, cydlyniant ac ymrwymiad y Bwrdd i welliant

56 Canfu fy ngwaith fod **cnewyllyn llawn o aelodau annibynnol sylweddol ar y Bwrdd erbyn hyn a bod cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn briodol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae ansefydlogrwydd parhaus o fewn y Tîm Gweithredol, bylchau mewn strwythurau arweinyddiaeth uwch ehangach, a heriau parhaus gyda'r model gweithredu yn peryglu gallu'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu.**

57 Erbyn hyn, mae cnewyllyn llawn o aelodau annibynnol sylweddol ar y Bwrdd, ond mae ansefydlogrwydd o hyd yn y Tîm Gweithredol a bylchau yn rhai o'r strwythurau uwch arweinyddiaeth ehangach. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi penodi sawl uwch-reolwr, mae rolau allweddol yn wag o hyd, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydweithwyr fabwysiadu cyfrifoldebau ychwanegol dros dro. Yn ogystal, nid yw model gweithredu'r Bwrdd Iechyd a gyflwynwyd yn 2022 yn addas at y diben ac mae'n creu heriau o ran eglurder cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

58 Cynhelir cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn briodol ac yn effeithiol, ond mae lle i wella ansawdd papurau a llwytho cofnodion i wefan y Bwrdd Iechyd ymhellach mewn modd amserol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd nifer o gamau i hyrwyddo tryloywder cyhoeddus o fusnes y Bwrdd a’r pwyllgorau. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn bersonol a gall y cyhoedd eu mynychu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ffrydio ei gyfarfodydd bwrdd yn fyw, er bod potensial i ymestyn yr arfer hwn i bwyllgorau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad clir i glywed gan gleifion drwy adroddiadau a straeon cleifion a staff. Fodd bynnag, mae angen ffurfioli ei ddull o gynnal ymweliadau’r Bwrdd â gwasanaethau.

59 Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn gyfredol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i fynd i’r afael â gwendidau yn ei drefniadau ar gyfer cofrestru datganiadau, rhoddion a lletygarwch ac i fynd i’r afael â’r ôl-groniad sylweddol o bolisïau sy’n hwyr i’w hadolygu.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

60 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau’r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; ac
- argymhellion olrhain.

61 Canfu fy ngwaith, **er bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran cryfhau ei systemau sicrwydd, bod mwy o waith i’w wneud mewn perthynas â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a sicrhau bod systemau sicrwydd yn cael eu perchenogi’n llawn ac yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliannau ar draws y sefydliad**.

62 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi’n datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) newydd. Er bod y dull presennol yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ei Gynllun Blynyddol blaenorol, mae angen dull cryfach o nodi a lliniaru’r risgiau i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd gwneir hyn yn anos oherwydd bod yr amcanion strategol yn rhy uchel ac nid yn rhai CAMPUS[2]. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn dangos her adeiladol i sicrhau bod risgiau'n cael eu mynegi'n glir a bod camau gweithredu i liniaru risgiau ar waith. Fodd bynnag, mae llawer o'r risgiau sy'n sgorio uchaf wedi aros yn sefydlog ac nid ydynt wedi gostwng yn sylweddol dros amser.

63 Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgorffori’r Fframwaith Perfformiad Integredig, a gymeradwywyd ym mis Medi 2023. Mae'r Fframwaith yn amlinellu'n briodol rolau a chyfrifoldebau ar draws y sefydliad a threfniadau uwchgyfeirio mewnol. Mae’r

[2] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol, ac amser-gyfyngedig.

Bwrdd Iechyd yn parhau i fireinio adroddiadau perfformiad ei bwyllgorau a'r Bwrdd, sydd wedi arwain at rai gwelliannau defnyddiol, gan gynnwys dadansoddi ystadegol.

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu systemau newydd sydd â'r potensial i wella trefniadau ansawdd, a cheir tystiolaeth ei fod yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran ymateb i gwynion mewn modd amserol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn darparu goruchwyliaeth dda o ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae ei gyfarfodydd wedi'u hymestyn i ganiatáu mwy o amser i ymdrin ag eitemau allweddol ar yr agenda, ac mae'r adroddiad ansawdd integredig newydd yn darparu ystod ehangach o sicrwydd ansawdd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn fanylach yn 2025.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad trylwyr a chynhwysfawr o argymhellion adroddiadau Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru yn mynd yn ôl sawl blwyddyn. Er bod rhai argymhellion yn cael eu disodli, ar gyfer y rhai sy'n parhau ar agor, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar ddyddiadau gweithredu diwygiedig a realistig gan bennu 'perchnogion argymhellion' newydd lle bo angen. Fel rhan o'r gwaith hwn, a darparu diweddariadau yn y dyfodol, bydd angen i Arweinwyr Gweithredol ddarparu tystiolaeth well ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion.

## Dull corfforaethol o gynllunio

66 Gwnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

67 Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu cynlluniau sefydliadol a chlinigol hirdymor cynaliadwy. Fodd bynnag, i gefnogi'r gwaith hwn, bydd angen iddo gryfhau ei ddull cynllunio a sicrhau bod cynlluniau'n gyraeddadwy.**

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn disodli ei strategaeth 10 mlynedd – 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' 2018-28 – oherwydd y newidiadau allanol a mewnol sylweddol sydd wedi digwydd ers ei ddatblygu yn 2018, gan gynnwys effaith COVID-19, trosiant sylweddol y Bwrdd, a heriau newidiol yn y gweithlu. Er bod angen clir am adnewyddu strategaeth, mae angen sylfaenol hefyd am gynllun (neu gynlluniau) clinigol, yn gysylltiedig â modelau gwasanaeth cynaliadwy a strategaeth sefydliadol ehangach sy'n dod i'r amlwg. Mae arweinyddiaeth glinigol yn hanfodol i fwrw ymlaen â hyn, ond mae'n her i'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, fel y mae capasiti cynllunio corfforaethol ehangach.

69 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer sicrhau ymgysylltiad mewnol ac allanol digonol wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu casgliad 'o'r gwaelod i fyny' o gynlluniau gwasanaeth o bob rhan o'r sefydliad i lywio datblygiad cynllun blynyddol 2024-25, roedd ymgysylltiad cyffredinol yn gyfyngedig, ac wedi'i nodi'n arbennig ar lefel y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ar gyfer mwy o ymgysylltu ag aelodau'r bwrdd wrth ddatblygu ei gynllun blynyddol ar gyfer 2025-26.

70 Nid yw'r camau gweithredu yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn cynnwys cerrig milltir digon clir er mwyn helpu i fonitro cyflawniad. At hynny, o ystyried nifer y camau gweithredu a ddygwyd ymlaen i Gynllun Blynyddol 2024-25 a'r cynnydd hyd yma, mae risg y bydd y cyflawni'n mynd yn bellach oddi ar y trywydd iawn.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

71 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Rhoddais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

72 Canfu fy ngwaith, **er bod gwelliannau yn ymagwedd y Bwrdd Iechyd at reolaeth ariannol a chyflawni arbedion, fod heriau sylweddol yn parhau o ran gwariant o fewn y gyllideb. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2023-24, er gwaethaf cymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn cyflawni ei dargedau ariannol ar gyfer 2024-25, bydd hyn yn heriol ac mae hefyd yn dibynnu ar sawl arbediad untro.**

73 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24 gan iddo nodi diffyg diwedd blwyddyn o £24.3 miliwn. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi cael £82 miliwn o gyllid cymorth strategol i gefnogi gwelliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau allweddol a £27 miliwn mewn cymorth arian parod yn unig gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023-24. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o gyflawni mantoli'r gyllideb yn 2024-25, er ymddengys fod ei sefyllfa'n gwella a disgwylir iddo gyflawni ei gyfanswm rheolaeth ariannol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

74 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymwybyddiaeth dda o'i risgiau ariannol ond mae angen iddo fabwysiadu dull mwy trawsnewidiol o wella costau. Mae hyn wedi'i gyfyngu gan absenoldeb cynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddarpariaeth arbedion, dan arweiniad y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd a'r ffrydiau gwaith sy'n sail iddo. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo

i wreiddio gofal iechyd sy’n seiliedig ar werth ymhellach, sydd ei angen oherwydd ei fod ar hyn o bryd yn or-ddibynnol ar arbedion tymor byr nad ydynt yn rheolaidd, ac mae angen iddo symud tuag at sylfaen fwy cynaliadwy.

75 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i oruchwylio cydymffurfiad SFIs a'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo. Mae hefyd yn goruchwylio ac yn craffu ar wybodaeth am golledion a thaliadau arbennig, gweithgarwch gwrth-dwyll, rheolaethau caffael, a chamau gweithredu tendr unigol. Mae rheolaethau ariannol cryfach yn arwain at lai o gamau gweithredu tendr unigol a thaliadau arbennig. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer 2023-24 i’w harchwilio o fewn yr amserlen ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Er bod ansawdd y rhain wedi gwella’n sylweddol yn 2023-24, mae lle i wella cywirdeb yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol cysylltiedig o hyd. Mae adroddiadau ariannol i’r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a’r Bwrdd yn amserol, yn gynhwysfawr ac yn dryloyw sy’n cefnogi craffu a throsolwg. Maent yn darparu dadansoddiad da o feysydd gwariant, gorwario, a thueddiadau gwariant ariannol.

# Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2024.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiad Ariannol ar y Gronfa Elusennol | Ionawr 2025 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Gronfa Elusennol | Ionawr 2025 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gofal Heb ei Drefnu: Llif allan o'r Ysbyty – Gogledd Cymru | Chwefror 2024 |
| Cynllunio ar gyfer Rhyddhau: Diweddariad Cynnydd | Chwefror 2024 |
| Adolygu Trefniadau Arbed Costau | Medi 2024 |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Rhagfyr 2024 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Ebrill 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru, ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Adolygiad o Adfer Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio | Mawrth 2025 |

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Gofal Brys ac Mewn Argyfwng – Trefniadau ar gyfer Rheoli’r Galw | Ebrill 2025 |
| Defnydd o ddyraniad ariannol strategol Llywodraeth Cymru | Mai 2025 |
| Adolygiad o Drawsnewid Digidol | Mehefin 2025 |
| Dilyniant Llywodraethu Ansawdd: Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto. Ein bwriad yw symud yr adolygiad hwn i gynllun archwilio 2025. Byddai hyn yn arwain at ad-daliad rhannol yn erbyn ffi 2024. Byddaf yn nodi’r bwriadau hyn yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025. | Mehefin 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £513,256 (ac eithrio TAW).

Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn nodi y bydd rhai taliadau ychwanegol yn ymwneud â'r gwaith ychwanegol sydd ei angen i gyflawni'r archwiliad ariannol. Bydd ad-daliad rhannol hefyd yn erbyn ffi archwilio perfformiad 2024. Mae ad-daliad yr archwiliad perfformiad yn ymwneud â'm bwriad i symud llywodraethu ansawdd adolygiad 2024 i Gynllun Archwilio 2025. Byddwn yn trafod yr union symiau ag uwch-swyddogion y Bwrdd Iechyd.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi risgiau camddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. | Ar sail samplu, profodd fy nhîm gofnodion dyddlyfr ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr wedi diystyru rheolaethau. |
| Mae risg o gamddatganiad sylweddol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac felly caiff ei drin fel risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.27].<br>Nodwyd gennym isod y pwysau ariannol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, ac mae risg na fydd y toriad yn cael ei gymhwyso'n gywir i gyllid a dderbynnir tua diwedd y flwyddyn. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• cytuno bod y cyllid a gafwyd tua diwedd y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y flwyddyn gywir;<br>• cadarnhau bod cyllid Llywodraeth Cymru na chafodd ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn wedi cael ei drin yn gywir;<br>• ystyried cyflawnder incwm amrywiol. | Ar sail samplu, ystyriodd fy nhîm doriad a chyflawnrwydd incwm amrywiol a chytunwyd ar driniaeth cyllid Llywodraeth Cymru. Ni nodwyd unrhyw broblemau. |
| Mae risg o gamddatganiad sylweddol oherwydd twyll mewn gwariant ac felly caiff ei drin fel risg sylweddol [PN 10].<br>Nodwyd gennym isod y pwysau ariannol y mae'r Bwrdd Iechyd | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi pob maes materol o gyflog a gwariant nad yw'n gyflog yn sylweddol; | Profi ac adolygu sampl a gynhaliodd fy nhîm ar y meysydd hynny yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o gamddatganiad sylweddol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| yn eu hwynebu, ac mae risg na fydd y toriad yn cael ei gymhwyso'n gywir i gyllid a ysgwyddir tua diwedd y flwyddyn. | • adolygu sail y croniadau ar gyfer unrhyw duedd a amcangyfrifir;<br>• adolygu'r toriad gwariant ar ddiwedd y flwyddyn;<br>• adolygu sail darpariaethau newydd a newidiadau mewn lefelau darpariaeth yn ystod y flwyddyn;<br>• adolygu'r diwygiadau a wnaed i'r balansau a ddygwyd ymlaen er mwyn sicrhau dilysrwydd. | Ni nodwyd unrhyw broblemau. |
| Mae'r Bwrdd Iechyd dan bwysau sylweddol i gyrraedd y sefyllfa diwedd blwyddyn y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru o ddiffyg o £20 miliwn.<br>Y sefyllfa wirioneddol a adroddwyd ym mis Chwefror 2024 oedd diffyg o £9.7 miliwn gyda diffyg a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn o £33.0 miliwn. Er gwaethaf y rhagolwg hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus y bydd yn cyflawni diffyg diwedd blwyddyn o £27 miliwn, yn dilyn cadarnhad o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £5.7 miliwn ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP).<br>Mae'r pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn rhagfarnllyd i gyflawni'r alldro diwedd blwyddyn y cytunwyd arno a'r ddyletswydd ariannol.<br>Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y tair blynedd 2020-21 i 2022-23. Os | Bydd y tîm archwilio yn canolbwyntio ei brofion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai o bosibl gynnwys tuedd adrodd. | Ni nododd profion archwilio cyffredinol, ac yn enwedig ar y meysydd hynny yr ystyriwyd eu bod yn agored i ragfarn adrodd, unrhyw dystiolaeth o drin neu ragfarn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni’r ddyletswydd ariannol hon yn 2023-24, byddwn yn cyflwyno adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn amlygu’r methiant ac yn amodi eich barn ar reoleidd-dra. | | |
| O 1 Rhagfyr 2023, mae’r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR) a ddefnyddir i gyfrifo’r colledion a llawer o’r balansau darpariaethau yn y cyfrifon wedi’u datgomisiynu.<br>Am weddill 2023-24, bydd taenlen Excel enghreifftiol yn cael ei defnyddio i gofnodi colledion, taliadau arbennig ac i gyfrifo balansau diwedd blwyddyn.<br>Mae risg bod y trafodion a’r balansau sy’n ymwneud â cholledion a thaliadau arbennig wedi’u camddatgan yn sylweddol oherwydd:<br>• nad yw'r trosglwyddiad data rhwng system LaSPaR a model Excel yn gyflawn ac yn gywir;<br>• y model Excel yn camgyfrif balansau, oherwydd gwallau taenlen/modelu a/neu fewnbynnu data anghywir. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi cyflawnrwydd a chywirdeb trosglwyddo data o'r system LaSPaR i'r taenlenni yn Excel;<br>• ystyried dyluniad a gweithrediad y rheolaethau (os oes rhai) sydd ar waith i liniaru gwallau;<br>• adolygu’r daenlen diwedd blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw wallau neu faterion arwyddocaol wrth gasglu ffigurau ar gyfer y cyfrifon;<br>• adolygu trafodion yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Quantum) ar sail samplu. | Cynhaliodd fy nhîm gysoniad rhwng y system LaSPaR a’r taenlenni seiliedig ar Excel, ac ar sail sampl profwyd y trafodion o fewn y flwyddyn ac ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Mae’r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys datgeliadau pwysig sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a safonau cyfrifyddu.<br>Cyflwynwyd Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2022-23 i’w archwilio ar ôl i’r Bwrdd | Bydd y tîm archwilio yn adolygu’r datgeliadau i sicrhau eu bod yn unol â’n dealltwriaeth o’r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a’u bod yn gyflawn ac yn gywir. | Nododd fy nhîm archwilio wallau sylweddol yn y datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a ddiwygiwyd wedyn gan y Bwrdd Iechyd.<br>Amlygodd profion a gynhaliwyd ar yr Adroddiad |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Iechyd ofyn am ddyddiad cau estynedig y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Roedd hefyd angen nifer sylweddol o ddiwygiadau i sicrhau bod y wybodaeth a adroddwyd yn ffeithiol gywir.<br>Bu newidiadau sylweddol i gyfansoddiad yr Uwch-reolwyr ac Aelodau Annibynnol yn ystod y flwyddyn a bydd angen eu hadlewyrchu'n gywir yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol. | | Cydnabyddiaeth Ariannol hefyd sawl maes lle'r oedd angen i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau llywodraethu. |
| Nid oedd y datganiadau ariannol drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn 2022-23 o'r ansawdd yr oeddem yn ei ddisgwyl.<br>Roedd y papurau gwaith a gafwyd i gefnogi datgeliadau allweddol yn y datganiadau ariannol (er enghraifft Eiddo, Offer, Cyfarpar ac Asedau Hawl i Ddefnyddio) yn wael ac nid oedd ganddynt lwybr archwilio clir.<br>Nododd ein gwaith archwilio faterion a gwallau sylweddol a arweiniodd at ddiwygiadau i'r cyfrifon neu'r angen am waith archwilio ychwanegol.<br>Effeithiodd hyn ar gyflawni ein harchwiliad yn amserol a chyflwyno'r datganiad ariannol archwiliedig i Lywodraeth Cymru.<br>Mae'r dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig 2023-24 wedi'i ddwyn ymlaen i 15 Gorffennaf 2024. Os na wneir gwelliannau, mae perygl na fydd y dyddiad | Mae'r tîm archwilio wedi bod yn gweithio gyda thîm cyllid y Bwrdd Iechyd i ddeall y trefniadau a'r prosesau a sefydlwyd i wella ansawdd y datganiadau ariannol drafft.<br>Bydd y tîm archwilio yn monitro'r cynllun cau, ac yn adolygu'r datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith, ar ôl eu derbyn ar 3 Mai 2024, i nodi a oes unrhyw faterion a allai effeithio ar yr amserlen archwilio. | Nododd fy nhîm y bu gwelliant sylweddol yn ansawdd y datganiadau ariannol drafft a gyflwynwyd i'w archwilio. Dangosir hyn gan y nifer cymharol fach o gamddatganiadau a nodwyd ac a ddiwygiwyd a'r ffaith nad oes unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd yn deillio o'r archwiliad.<br>O ganlyniad, cwblhawyd yr archwiliad mewn pryd, a llofnodais farn y Datganiadau Ariannol ar 12 Gorffennaf 2024. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| cau ar gyfer cyflwyno yn cael ei fodloni eto. | | |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.